## YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL :** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Raymond Jones, Richard O Jones, Nicola Roberts |
| **WRTH LAW :** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu Priffyrdd) (EJ)<br>Cymhorthydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ann Griffith |

---

**29LPA996/CC – Cais amlinellol i godi 5 annedd ar dir ym Maes Maethlu, Llanfaethlu.**

Roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 4 Mehefin 2014 wedi argymell y dylid cynnal ymweliad safle i'r uchod i roi cyfle i'r Aelodau weld y lleoliad cyn ystyried y cais.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu gyflwyno crynodeb o'r cais.

Dywedodd y Swyddog bod y cais a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn gais cynllunio amlinellol am 5 annedd – 2 bâr o anheddau pâr ac un ar wahân, i'w lleoli ar dir y Cyngor ac yn ffurfio rhan o stad dai ym Maes Maethlu, Llanfaethlu. Tir heb ei ddatblygu yw hwn ar hyn o bryd ac y mae'n ffryntio'r briffordd.

Dangoswyd cynllun graddfa o'r cynnig i'r Aelodau ac eglurodd y Swyddog y byddai dyluniad yr anheddau yn debyg i ddyluniad eiddo arall yn yr ardal. Byddai'r datblygiad yn darparu 2 uned fforddiadwy.

Dywedodd y Swyddog y byddid yn cael mynediad i'r anheddau drwy'r fynedfa bresennol i'r stad dai gyfredol ac y byddai llefydd parcio yn cael eu darparu. Dywedodd y Swyddog ymhellach bod ffin y briffordd yn cael ei diffinio gan wal gerrig ac y bydd honno'n cael ei chadw, a dangosodd hefyd lwybr troed anffurfiol ar ffin y safle a giât mochyn sydd yn arwain i gae chwarae.

Cyfeiriodd y Swyddog at ystyriaethau cynllunio dan Bolisi 50 y Cynllun Lleol a'r CDU ar gyfer datblygiad preswyl.

Dywedodd Aelod Lleol, Llinos Medi Huws bod diffyg difrifol o ran llefydd parcio yn yr ardal, a bod hynny'n gwaethygu gyda'r nos.

Nododd yr Uwch Beiriannydd Priffyrdd bod y ddarpariaeth o lefydd parcio a fwriedir yn cydymffurfio â Chyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor ar Safonau Parcio, sef 1.5 lle i bob uned ar gyfer parcio cymunedol.  Dywedodd y Swyddog hefyd mai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer parcio yw iddynt fod o fewn golwg i anheddau'r perchnogion.

Eglurodd y Swyddog ymhellach bod gwrthwynebiad cryf i'r cynnig o du'r preswylwyr lleol sy'n dweud bod y dyluniad yn anaddas i'r ardal, sydd hefyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Dangosodd y Swyddog gynllun graddfa arall i'r Aelodau ar gyfer datblygu'r safle, oedd wedi ei gyflwyno gan breswylwyr lleol fel rhan o'u gwrthwynebiad i'r cynllun a gyflwynwyd, yn dangos y gosodiad arall yr oeddent hwy yn eu ffafrio o 6 annedd gyda mynediad yn uniongyrchol i'r briffordd yn hytrach na'i bod yn mynd drwy'r stad bresennol.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Datblygu nad oedd gan yr Adran Gynllunio na'r Adran Priffyrdd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

**Y Cynghorydd W. T. Hughes**

**Cadeirydd**